14–16 oed

# Cyflwyno’r newyddion: Newid cyflwr prinder dŵr



ROYAL SOCIETY OF CHEMISTRY

Education
Inspiring your teaching and learning

Wedi’i lawrlwytho o rsc.li/3R9V8vG, taflen i fyfyrwyr, mae nodiadau i athrawon gydag atebion a thempled sgript, hefyd ar gael.


# Y dasg


Yn eich grwpiau, paratowch i gyflwyno'r newyddion am ymchwil gwyddoniaeth fel eitem ar raglen newyddion. Defnyddiwch y templed sgript i'ch helpu.

Mae gennych bum munud ar gyfer y cyflwyniad.

Mae angen i bawb ddweud rhywbeth yn ystod y 'darllediad'. Bydd gennych y rolau canlynol yn eich grŵp:

1. cyflwynydd newyddion – yn cyflwyno'r stori
2. gohebydd – yn rhoi rhagor o fanylion
3. gwyddonydd/gwyddonwyr – yn ateb cwestiynau.





STUDENT SHEET

Reading comprehension 14–16 years

Available from rsc.li/4jj0pJP

| Role | What to communicate | Your script |
|---|---|---|
| News anchor | Introduce the issue in one sentence. | |
| News anchor | Introduce the resolution. So briefly say that scientists may have solved the problem. | |
| News anchor | Introduce your classmate reporter who will provide more information. | |
| Reporter | Talk about the problem and its context in more detail. | |
| Reporter | In one sentence, introduce the scientist/s and say what they have done to solve the problem. | |
| Reporter | Ask the scientist your first question to explain what they've discovered. | |
| Scientist | Answer the first question. | |
| Reporter | Ask the scientist why the discovery is important. | |
| Scientist | Explain what a difference this research could make to people and where it might be used. | |
| Reporter | Ask the scientist what they need to do or find out next, to move the research forward towards having a real impact on people. | |

© 2025 Royal Society of Chemistry 2






# Beth mae angen i'r cyflwynydd newyddion ei wneud

- Cyflwynwch yr eitem newyddion ac eglurwch yn syml pa broblem roedd y gwyddonwyr yn ceisio ei datrys, neu i beth roeddent yn ceisio ymchwilio.
- Gweithiwch gyda'ch grŵp i wneud yn siŵr nad yw'r cyflwyniad cyfan yn para mwy na phum munud. Trafodwch faint o amser y dylai pob rhan ei gymryd.
- Dewch â'r eitem newyddion i ben ar ôl i bawb yn y tîm orffen. Rhowch ddatganiad i gloi mewn ymateb i'r hyn sydd wedi cael ei ddweud. I gael ysbrydoliaeth, dychmygwch deimladau posibl eich ffrindiau neu eich teulu wrth glywed yr eitem newyddion.




# Beth mae angen i'r gohebydd ei wneud

- Ar ôl i'r cyflwynydd newyddion siarad, dywedwch ragor wrth y gynulleidfa am y broblem roedd y gwyddonwyr yn ceisio ei datrys.
- Gofynnwch gwestiynau i'r gwyddonydd er mwyn i'r gynulleidfa ddysgu am eu darganfyddiad. Meddyliwch beth byddai'r gynulleidfa yn dymuno ei wybod. Edrychwch ar yr awgrymiadau yng ngham 6 eich taflen waith.
    - Canfyddiadau
    - Cyd-destun
    - Perthnasedd/cymhwyso
    - Effaith
- Wrth ymarfer gyda'ch grŵp, ceisiwch ymateb i'r hyn mae'r gwyddonydd yn ei ddweud, yn hytrach na dim ond darllen eich cwestiynau.



# Beth mae angen i'r gwyddonydd ei wneud

- Pan fydd y gohebydd yn gofyn cwestiynau i chi, rhowch atebion clir y bydd eich cyd-ddisgyblion yn eu deall.
- Darllenwch y testun yn ofalus a gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod beth yw'r prif syniadau. Edrychwch ar yr awgrymiadau yng ngham 6 eich taflen waith.
    - Canfyddiadau
    - Cyd-destun
    - Perthnasedd/cymhwyso
    - Effaith
- Os oes unrhyw eiriau o'r testun yn ymddangos yn anodd, meddyliwch am eiriau symlach i'w hegluro.
- Siaradwch â'ch grŵp ynghylch a allai lluniau neu ddiagramau helpu'r gynulleidfa i ddeall yn well. Os ydych yn penderfynu eu defnyddio, dewch o hyd iddynt a'u cyflwyno.



# Sut beth yw cyflwyniad newyddion da?

Mewn cyflwyniad da...

- mae dechrau, canol a diwedd clir
- mae pawb yn cael cyfle i siarad, a phan maent yn gwneud hynny, maent yn cael eu cyflwyno a diolchir iddynt am eu cyfraniad
- mae'n amlwg bod y cyfranogwyr wedi ystyried anghenion a diddordebau eu cynulleidfa
- mae'n gorffen ar amser (cofiwch fod gan bob grŵp bum munud i siarad)

Wrth siarad...

- byddwch yn glir
- byddwch yn ddigon uchel
- edrychwch ar y gynulleidfa
- defnyddiwch eiriau y bydd y gynulleidfa'n eu deall
- edrychwch a siaradwch yn hyderus (hyd yn oed os nad ydych chi'n teimlo'n hyderus eto)